

Agenda – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd **Marc Wyn Jones**
Dyddiad: Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2017 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.15 0300 200 6363
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

1 Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 – 09.30)

2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

3 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(09.30 – 10.45)

(Tudalennau 1 – 23)

Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig – Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

4 Papur i'w nodi

(10.45 – 10.50)

Llythyr gan y Llywydd ynghylch gweithredu Deddf Cymru 2017

(Tudalennau 24 – 26)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Llywydd

Llythyr oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru am Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

(Tudalennau 27 – 35)

Dogfennau atodol:

Llythyr oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer gweddill yr eitemau yn y cyfarfod hwn.

6 Trafod ymateb i'r llythyr gan y Llywydd ynghylch gweithredu Deddf Cymru 2017

(10.50 – 11.00)

(Tudalennau 36 – 39)

Dogfennau atodol:

Briff Cyfreithiol

Egwyl

(11.00 – 11.10)

7 Ymchwiliad i bolisi coedwigaeth a choetiroedd – trafod yr adroddiad drafft

(11.10 – 12.30)

Cinio

(12.30 – 13.00)

8 Cyflwyniad ar oblygiadau'r Bil Diddymu ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor

(13.00 – 13.45)

9 Trafod Blaenraglen Waith y Pwyllgor

(13.45 – 14.00)

(Tudalennau 40 – 43)

Dogfennau atodol:

Blaenraglen Waith

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

1. Mae'r papur hwn yn amlinellu rhai o'm blaenoriaethau a chamau gweithredu diweddar cyn fy nghyfarfod gyda'r Pwyllgor ar 20 Gorffennaf.

Gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE)

2. Mae gadael yr UE yn parhau i fod ar frig fy agenda ac yn fater yr wyf yn rhoi cryn sylw iddo. Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn cael y canlyniad gorau posibl i'n sectorau ffermio, rheoli tir, bwyd a'r amgylchedd. Roedd yn bleser gennyf ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar ddyfodol rheoli tir yng Nghymru yn ddiweddar ar amlinellu nifer o'm blaenoriaethau.
3. Mae ein Bord Gron ar Brexit i Randdeiliaid yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn parhau i fod yn rym pwysig ac yn ffynhonnell bwysig o ddealltwriaeth ac arbenigedd. Mae'r ymgysylltiad cynnar a pharhaus hwn gyda phartneriaid allweddol wedi bod yn flaenoriaeth bwysig o ran gweithio i nodi'r goblygiadau llawn, yr heriau a'r cyfleoedd yn sgil gadael yr UE.
4. Yng Nghyfarfod y Ford Gron ym mis Mawrth cytunwyd i sefydlu saith Gweithgor i alluogi'r ford gron i ymwneud yn fwy â'r agweddau mwy manwl ar drefniadau pontio o'r UE. Bydd y grwpiau hyn yn cynnal dadansoddiad manylach yn y meysydd rheoli tir, deddfwriaeth a rheoleiddio, tystiolaeth a senarios, cadwyni masnach a chyflenwi, aer a hinsawdd, moroedd a'r arfordir a phobl a chymunedau. Mae'r holl grwpiau hyn wedi cynnal o leiaf un cyfarfod ac maent wrthi'n cytuno ar gynlluniau gwaith ar gyfer y dyfodol.
5. Rwyf wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd Gweinidogol Pedairochrog gyda'm cymheiriaid o'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a Defra. Mae'r ymgysylltiad hyd yma â Defra i'w groesawu'n fawr o ystyried pwysigrwydd y portffolio Amgylchedd a Materion Gwledig i Gymru, ond nid yw'r cynnydd wedi bod mor gyflym ag y byddwn yn dymuno, yn arbennig yng nghydestun y pwysau amser o ran y trafodaethau am yr UE. Cafwyd rhagor o oedi yn sgil Etholiad Cyffredinol y DU. Gohiriwyd Cyfarfodydd Pedairochrog mis Mehefin a mis Gorffennaf gan Weinidogion y DU lle y bwriadwyd trafod opsiynau polisi ar gyfer y dyfodol.
6. Mae o'r pwys mwyaf bod y trafodaethau hyn yn symud ymlaen yn gyflym yn awr er mwyn rhoi trefniadau ar waith ar gyfer y cyfnod ar ôl gadael yr UE ac rydym wedi bod yn pwysleisio hyn ar bob lefel sydd ar gael inni.
7. Mae amaethyddiaeth yn faes sydd wedi'i ddatganoli'n llawn ers bron i ddau ddegawd ac rwyf yn glir ac yn benderfynol mai felly y dylai barhau. Rwy'n pwysleisio ar bob cyfle y ffaith bod yn rhaid i Gymru allu rhoi polisiâu ar waith sy'n ymateb i'n cyd-destun unigryw ac sy'n adeiladu ar ein cryfderau. Mae angen fframweithiau'r DU lle mae gennym feysydd cyffredin, ond mae'n hanfodol bod y fframweithiau hyn yn cael eu cytuno ar y cyd a bod gan Gymru lais cyfartal o ran y ffordd y cânt eu llunio.
8. O ran y dyfodol ar ôl Brexit, rwyf wedi ymgynghori'n eang ar y Polisi Adnoddau Naturiol ac rwy'n ddiolchgar am gyfraniad cynifer o'n rhanddeiliaid. Daeth yr

ymgyngoriad i ben ym mis Chwefror ac rwyf wedi bod yn ystyried yr adborth gan adeiladu ar y cyfleoedd a'r heriau a nodwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

9. Rwyf wedi penderfynu gohirio, dros dro, cyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol er mwyn rhoi mwy o amser i allu dadansoddi'n llawn y nifer sylweddol o ymatebion a gafwyd i'n hymgyngoriad diweddar. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y goblygiadau difrifol i'n fframweithiau polisi, deddfwriaeth a chyllido o ran ein hadnoddau naturiol yng Nghymru a'n sectorau allweddol sy'n eu defnyddio yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.
10. Mae a wnelo'r Polisi Adnoddau Naturiol a mwy na rôl Llywodraeth Cymru neu'r sector cyhoeddus ehangach. Mae'n cydnabod bod Cymru gyfan yn elwa ar ein hadnoddau naturiol. Rydym yn wynebu heriau difrifol ac anodd o ran newid yn yr hinsawdd a thystiolaeth sy'n dangos bod bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio.

Fframwaith Deddfwriaethol

11. Ar 21 Mehefin, lansiais ymgyngoriad o'r enw 'Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy' am 12 wythnos i ymgyngori ar gynigion sy'n ceisio cyflawni ymhellach ein hymrwymiad i reoli ein hadnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy er mwyn creu manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol hirhoedlog, yn ogystal â manteision amgylcheddol, er mwyn sicrhau ffyniant parhaol Cymru.
12. Mae cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo i ystyried goblygiadau gadael yr UE i iechyd a lles anifeiliaid. Erbyn hyn mae cytundeb ar draws y DU i ddefnyddio'r ddwy flynedd nesaf i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth drydyddol sy'n dod i'r amlwg yn yr UE. Mae'n rhaid inni anelu at sicrhau bod gennym fframwaith deddfwriaethol ar waith sy'n cefnogi masnach a'r angen i ymateb i achosion o glefydau anifeiliaid yn gyflym ac yn effeithiol. Gall y rhain arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol a chostus i iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd, yr economi a'r amgylchedd.
13. Mae angen symleiddio a chydgrynhoi deddfwriaeth cynllunio Cymru. Mae'n gymhleth ac wedi'i lledaenu ar draws nifer o Ddeddfau ar hyn o bryd. Rwy'n falch bod Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr yn canolbwyntio, drwy'r prosiect hwn, ar gydgrynhoi a symleiddio deddfwriaeth cynllunio yng Nghymru. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith bapur cwmpasu ym mis Mehefin y llynedd a gaiff ei ddilyn gan bapur ymgyngori mwy manwl yr hydref hwn. Bydd hyn yn arwain at adroddiad yn nodi ei gasgliadau i Weinidogion Cymru eu hystyried. Bydd hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth i gychwyn y broses o gydgrynhoi cyfraith cynllunio yng Nghymru.

Ffyniannus a diogel

14. Fy nod yw canolbwyntio ar gamau lle mae pawb ar ei ennill sy'n sicrhau gwelliannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r dull hwn yn fwyfwy cyffredin yn y sector busnes lle mae gan lawer o'r cwmnïau rhyngwladol mwyaf llwyddiannus 'llinell isaf driphlyg' neu ddull 'pobl, planed, elw'.

15. O ran datgarboneiddio, rwy'n canolbwyntio ar sefydlu fframwaith i leihau allyriadau. Mae'r rhaglen ar y trywydd cywir i gael ei cyflawni o fewn yr amserlenni deddfwriaethol.
16. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol gan gydnabod y cyfrifoldeb ar draws y Llywodraeth ac mae eisoes wedi cyfarfod. Rydym wedi derbyn cyngor gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd a byddwn yn ymateb yn fuan gan amlinellu ein dull polisi mewn perthynas â Chyfrif Allyriadau Net Cymru.
17. Wrth osod ein targedau a'n cyllidebau, mae'n rhaid inni roi sylw i nifer o ddarnau o dystiolaeth ac rydym wedi gofyn i Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd am gyngor ynglŷn â hyn. Rydym yn datblygu ein model allyriadau, sef Cyfrifiannell 2050 Cymru.
18. Lansiodd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd Alwad am Dystiolaeth ar Dargedau a Chyllidebau rhwng 6 Gorffennaf ac 11 Medi. Cynhelir digwyddiadau i randdeiliaid yng Nghaerdydd ar 6 Gorffennaf ac yn Neganwy ar 13 Gorffennaf i lywio'r alwad hon. Rydym wedi dechrau gweithio ar y Cynllun Cyflawni drwy sefydlu gweithgorau traws-lywodraethol i ddatblygu'r polisiâu a'r cynigion sydd eu hangen i gyflawni'r gyllideb garbon gyntaf. Dros y 18 mis nesaf byddwn yn cynnwys ein rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun cyflawni.
19. Rwy'n awyddus i weithredu ar Ddatgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus. Yn ystod dadl yn y cyfarfod llawn ar 27 Mehefin nodais yr uchelgais i sicrhau bod y Sector Cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030. Er bod cyfran yr allyriadau yn y Sector Cyhoeddus yn fach, gallant ddylanwadu ar leihau allyriadau yn y sector ehangach yn ogystal â lleihau costau. Bydd Galwad am Dystiolaeth yn cael ei chyhoeddi yn gofyn i randdeiliaid am y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r uchelgais.
20. Rydym yn parhau i gefnogi Twf Gwyrdd ac erbyn diwedd y tymor y Llywodraeth hon rydym yn disgwyl y bydd bron i £70 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau ynni yn y sector cyhoeddus. Nododd ein hachos busnes ar gyfer Twf Gwyrdd Cymru yr angen am gronfa fuddsoddi wedi'i chyfalafu gyda lleiafswm o £50 miliwn a all barhau i ailgylchu wrth i ad-daliadau gael eu gwneud. Mae hyn yn rhoi cyfle inni wneud tua £650 miliwn o arbedion mewn arian parod ar ynni a sicrhau gostyngiad mewn allyriadau o 2.5 miliwn o dunelli o CO2 yn ystod oes yr asedau a ariennir gennym.
21. Yn gynharach eleni, roedd modd imi wneud cyhoeddiad am ddau fuddsoddiad sylweddol. Bydd £4.5 miliwn yn galluogi Cyngor Sir Fynwy i adeiladu Fferm Solar Grove Oak a fydd yn cynhyrchu dros £500,000 y flwyddyn i'r awdurdod ac yn arwain at arbedion o bron i 50,000 o dunelli o CO2 yn ystod ei hoes. Yn ogystal, mae benthyciad o £3 miliwn ar gyfer Rhaglen goleuadau stryd LED Cyngor Sir y Fflint yn galluogi'r Awdurdod i wneud arbedion blynyddol o £400,000 ac arbed dros 25,000 o dunelli o CO2 dros oes y rhaglen.
22. Rwy'n credu bod seilwaith ynni modern, effeithlon a dibynadwy yn bwysig i'n busnesau a'n cymunedau ac rwyf wedi ymrwymo i gefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy newydd. Mae trydan a gwres adnewyddadwy a charbon isel yn

elfen bwysig o ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â datgarboneiddio.

23. O ran cyfleoedd, mae hyn yn golygu cefnogi buddsoddiadau mawr mewn ynni adnewyddadwy ar y tir, ar y môr ac ynni niwclear, gan gynnwys ein dau brosiect buddsoddi ynni mwyaf, Wylfa Newydd a Morlyn Llanw arfaethedig Bae Abertawe.
24. Mae Wylfa Newydd wedi cael ei diffinio fel blaenoriaeth ar gyfer tymor y Llywodraeth hon. Bydd yn helpu i greu swyddi o ansawdd uchel yn ogystal â bod yn bwysig i ddyfodol dur yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb pwysig i beidio â niweidio hyder datblygwyr allweddol megis Pŵer Niwclear Horizon a'i gadwyn gyflenwi Haen 1 i fuddsoddi yng Nghymru. Ar 24 Mai, lansiodd Horizon ei drydydd cam ymgynghori cyn ymgeisio ar ei gynlluniau wedi'u diweddarau ar gyfer Wylfa Newydd. Cyflwynwyd ymateb llawn, traws-Llywodraethol, gennym i'r ymgynghoriad cynhwysfawr hwn, a ddaeth i ben ar 22 Mehefin.
25. Mae angen i Lywodraeth y DU hefyd ymgysylltu'n llawn â ni o ran y gwaith o ddatblygu diwydiant ynni morlyn llanw y DU gan ein bod wedi datblygu sylfaen wybodaeth helaeth i gefnogi'r diwydiant hwn - fel y cydnabyddir gan Adolygiad Hendry. Yn ddiweddar, ysgrifennais eto at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn gofyn am ddiweddariad ar ymateb Llywodraeth y DU i adolygiad Hendry ac i bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu'n llawn â ni.
26. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi ei hymateb maes o law, ond nid yw wedi ymrwymo i amserlen. Rydym yn cwblhau'r drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymgynghori yn y misoedd nesaf. Mae angen inni, wrth gwrs, adlewyrchu barn Llywodraeth y DU ar forlynnoedd llanw fel rhan o'r broses ymgynghori honno.
27. Rydym wedi rhoi benthychiad masnachol o £1.25 miliwn i Forlyn Llanw Bae Abertawe. Rydym yn gweithio'n agos â'r cwmni i sicrhau bod cwmnïau o Gymru yn cael y budd mwyaf posibl.
28. Rydym hefyd wedi buddsoddi yn yr adroddiadau ar y Galw am Sgiliau/Cyflenwad o Sgiliau ar gyfer datblygiad arfaethedig morlyn Bae Abertawe. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i roi Cymru mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd a dod yn arweinydd byd yn y diwydiant newydd hwn. Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, megis Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol Cymru, gan roi mynediad cynnar iddynt i adroddiadau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur.
29. Byddwn yn gosod targedau uchelgeisiol ond realistig ar gyfer ynni adnewyddadwy, ac rydym yn cynnal gweithdy ar 17 Gorffennaf i ymgysylltu â rhanddeiliad mewn perthynas â'r dystiolaeth a fydd yn llywio'r targedau. Mae hyn yn rhan o'n gwaith i ddatblygu llwybr ynni i gefnogi ein hymrwymiaidau datgarboneiddio a Chymru fwy ffyniannus.
30. I gefnogi hyn rwyf wedi ysgrifennu eto at Lywodraeth y DU i bwysleisio'r angen i gefnogi'r technolegau adnewyddadwy mwyaf costeffeithiol fel rhan o'i systemau cefnogi ynni. Rwyf wedi ymrwymo i ymchwilio i argymhelliad y Pwyllgor ar sefydlu cwmni cyflenwi ynni i Gymru. Rydym wedi cynnal tri digwyddiad ymgynghori

ledled Cymru a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniad maes o law.

31. Mae ein gwasanaeth cefnogi ynni adnewyddadwy lleol yn parhau i gynyddu gosodiadau ar raddfa fach, gan ganolbwyntio ar gadw'r manteision yng Nghymru. Mae pymtheg o brosiectau wedi cael eu hadeiladu, gan gynyddu ynni sy'n eiddo i'r gymuned dros 400% i 9.3MW, o gymharu ag 1.7 MW ar ddiwedd 2014. Rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU o ran y gyfundrefn ariannol Contract Gwahaniaeth gan nad yw hyn, ar hyn o bryd, yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar Gymru er mwyn cyrraedd ei thargedau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y diffyg cefnogaeth ar gyfer ynni gwynt ar y tir a thechnolegau tonnau llanw.
32. Mae ein gwaith ar arloesi ynni yn parhau drwy Byw yn Glyfar. Gwnaed cynnydd ar nifer o brosiectau gan gynnwys astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer defnyddio dŵr pyllau glo fel ffynhonnell ynni ar gyfer cynllun gwres Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gweithdy tanwydd cynaliadwy wedi cael ei drefnu i helpu Dinas Caerdydd i ddatblygu strategaeth i ymdrin ag anghenion ansawdd aer a datgarboneiddio. Hefyd, cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus "Tu mewn i gartrefi a gweithleoedd clyfar" ym mis Mawrth i lywio safbwynt dinasyddion. Hyd yma mae £0.35 miliwn o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru wedi helpu i ddenu dros £50 miliwn o arbenigedd gan helpu dau o'r arddangoswyr yn Ynys Môn a Phen-y-bont ar Ogwr.
33. Mae rhaglenni cymunedol eraill yn cynnwys ein prif raglen hynod lwyddiannus *Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru* sydd wedi'i chynllunio i sicrhau manteision economaidd i Gymru o ran cyfleoedd cyflogaeth a busnes. Mae pob un o'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni a osodwyd o dan ein cynlluniau wedi cael eu cyflawni gan fusnesau bach a chanolig o Gymru.
34. Rhwng 2011 a 2016, rydym wedi buddsoddi dros £217 miliwn yn y rhaglen *Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru* i wella effeithlonrwydd ynni 39,000 o gartrefi pobl ar incwm isel neu sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Rwy'n disgwyl cyhoeddi ffigurau 2016-17 yn ddiweddarach y mis hwn.
35. Y llynedd, amcangyfrifir bod y cynllun Nyth wedi cyflawni arbedion o dros £400 fesul aelwyd ar filiau ynni cyfartalog. Os caiff yr amcangyfrifon hyn eu gwireddu ar gyfer pob cartref sy'n cael ei wella drwy *Nyth*, byddai'n cyfateb i arbedion blynyddol ar filiau ynni o £9.5 miliwn y flwyddyn. Mae Arbed 2 hefyd wedi creu mwy na 470 o swyddi ac wedi darparu mwy na 60,000 o oriau o hyfforddiant mewn technolegau gwyrdd i weithwyr presennol a newydd.
36. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canfyddiadau ymchwil ar effeithiau iechyd *Nyth* yn *ddiweddar*. Mae'r ymchwil yn dangos bod y cynllun Nyth yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar iechyd y derbynwyr a bod y rhai sy'n derbyn mesurau effeithlonrwydd ynni drwy'r cynllun yn defnyddio llai ar y GIG. Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi ein penderfyniad i ymestyn y meini prawf cymhwysedd ar gyfer ein cynllun Nyth newydd i gynnwys deiliaid tai ar incwm isel sydd â chyflwr anadlu neu gyflwr cylchredol.
37. Rydym yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd - er gwaethaf y ffaith nad yw rhai o'r dulliau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd wedi'u datganoli. Mae pwerau dros Ddiwygio Lles a rheoleiddio'r farchnad ynni

manwerthu yn gorwedd gyda Llywodraeth y DU. Yn gyffredinol, mae tlodi tanwydd wedi gostwng o 29% yn 2012 i 23% yn 2016. Mae hyn yn ostyngiad o 6 phwynt canran mewn dim ond pedair blynedd.

38. Byddwn hefyd yn cryfhau rheoliadau adeiladu drwy ein hadolygiad Rhan L arfaethedig eleni. Bydd hyn yn edrych ar sut y gallwn reoli gwerthoedd inswleiddio a lleihau'r defnydd o ynni mewn cartrefi.
39. Yn ogystal, rydym wedi bod yn edrych ar gyfleoedd i ddenu mwy o adnoddau a chefnogaeth gan gyflenwyr ynni, Awdurdodau Lleol, cronfeydd pensiwn ac eraill, i gyflymu buddsoddiad ledled Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chefnogi ein huchelgeisiau datgarboneiddio. Rydym yn edrych ar bob cyfle i arloesi o ran cynhyrchion effeithlonrwydd ynni a modelau ariannol a all helpu i annog yr aelwydydd sydd â'r gallu i dalu, yn ogystal â'r rhai sydd ar incwm isel, i fanteisio ar welliannau effeithlonrwydd ynni. Rwy'n disgwyl gallu gwneud cyhoeddiad ar fy nghynigion yn yr hydref.
40. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau economi fwy cylchol yng Nghymru a defnyddio adnoddau naturiol y ddaear yn llawer mwy effeithlon. Rwy'n bwriadu amlinellu map ar gyfer economi gylchol sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, gan adeiladu ar ein llwyddiant o ran ailgylchu.
41. Gyda chyfradd ailgylchu o 60%, mae Cymru ymhell ar y blaen i holl wledydd eraill y DU, ac o fewn ychydig bwyntiau canran i fod ar y brig yn Ewrop. I roi hyn yn ei gyd-destun, yn 2015 dim ond dwy wlad - Slofenia a'r Almaen - a aeth uwchlaw cyfradd ailgylchu o 60%. Er bod tri o'n Hawdurdodau Lleol wedi methu â chyrraedd y targed ailgylchu statudol o 58%, dim ond o 1% y methodd dau o'r tri awdurdod hynny y targed. Dengys data dros dro fod cyfradd ailgylchu trefol Awdurdodau Lleol wedi cynyddu i 63% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2016.
42. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu Strategaeth Wastraff Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Pan fyddwn wedi cwblhau'r adolygiad byddwn yn ymgynghori ar yr opsiynau yn 2018.
43. Rydym hefyd wedi dechrau paratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd y Fframwaith yn sicrhau bod y system gynllunio yn helpu i gyflawni amcanion allweddol Llywodraeth Cymru; nodi'r seilwaith cenedlaethol y bydd ei angen arnom; sut y dylai ein rhanbarthau dyfu; a sut y dylai'r system gynllunio yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, gael ei halinio i ddarparu fframwaith cydlynol sy'n darparu sicrwydd a chyfeiriad. Mae ymgynghoriad ar y prif faterion, yr opsiynau a'r strategaeth a ffeirir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2018.
44. Gallaf hefyd ailddatgan yr ymrwymiad i adolygu Polisi Cynllunio Cymru er mwyn ei gysoni ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yr adolygiad hwn yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i lunio eu polisiau cynllunio lleol eu hunain yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i wneud penderfyniadau cynllunio a fydd yn helpu i'w gweithredu. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar y ddogfen ac yn diweddarau'r polisi lle bo'r angen. Bydd ymgynghoriad ar y ddogfen lawn yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2018.

45. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon byddwn yn buddsoddi dros £54 miliwn (cyfalaf a referniw) i gefnogi gweithgareddau a chynlluniau i leihau perygl llifogydd ac arfordiroedd ar draws Cymru. Rydym yn diweddarau'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd yng Nghymru. Bydd y strategaeth newydd yn egluro ymhellach rolau a chyfrifoldebau, yn enwedig o ran yr arfordir, ac yn annog mesurau llifogydd naturiol a chynlluniau peirianeg gwyrdd. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ariannu gwaith rheoli perygl llifogydd ar raddfa fach, gan ddarparu llwybr symlach i awdurdodau lleol wneud cais am arian ar gyfer cynlluniau hyd at £100,000.
46. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon byddwn yn darparu £2 filiwn ar gyfer y grant hollbwysig hwn. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar gynlluniau ar gyfer buddsoddi cyfalaf o £150 miliwn mewn rheoli risg arfordiroedd gyda chyllid ar gyfer adeiladu yn dechrau o 2018-19. Rydym yn adolygu achosion busnes a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol a byddwn yn cadarnhau'r prosiectau a fydd yn cael eu datblygu ymhellach cyn bo hir. Rydym wedi annog y defnydd o gynlluniau peirianyddol hybrid neu wyrdd i leihau perygl llifogydd, sydd wedi gweithio'n dda mewn mannau megis Abertawe, Pontarddulais, Bae Colwyn a'r Borth. Bydd y Strategaeth Genedlaethol newydd yn annog ymhellach ddulliau gweithredu mewn dalgylchoedd ehangach megis gwell rheolaeth o gefn gwlad/ucheldir i gadw dŵr ac adfer gorlifdiroedd gweithredol.
47. Mae mynd i'r afael â llygredd amaethyddol yn hanfodol os ydym am wella ansawdd dŵr yng Nghymru. Mae ein hymgyngoriad 'Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy', yr wyf eisoes wedi cyfeirio ato, yn ystyried ymarferoldeb pwerau newydd a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth, i wneud darpariaeth ar gyfer mesurau sylfaenol mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael ag effeithiau cronus gweithgareddau amaethyddol risg isel. Cafwyd nifer fawr o ymatebion i'n hymgyngoriad ar Barthau Perygl Nitradau ac rwy'n gobeithio rhyddhau crynodeb o'r ymatebion yn ddiweddarach yn ystod yr haf, i'w ddilyn gan fy ymateb ffurfiol.
48. Ym mis Mawrth, ymrwymais gyllid ar gyfer haen olaf Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, sef cyfanswm o £223 miliwn, i wneud defnydd llawn o warant y Trysorlys ar gyllid hyd at 2020. Ers lansio'r Rhaglen Datblygu Gwledig, rydym wedi rhyddhau £787 miliwn i'w fuddsoddi er budd cymunedau, ffermwyr, coedwigwyr a busnesau bwyd yng Nghymru drwy Raglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020. Mae hynny dros 82% o'r Rhaglen.
49. Pan fydd yr addasiad presennol wedi'i gymeradwyo, bydd y dyraniad ar gyfer y Rhaglen yn cael ei ddiwygio i £774.35 miliwn, gyda £519.62 miliwn o hwnnw yn arian yr UE. Gan ystyried dyraniad y Rhaglen ddiwygiedig yn y dyfodol, ceir ymrwymiad sy'n werth ychydig dros 100%. Yn ddiweddar, cytunais ar gynllun dangosol o gyfnodau datgan diddordeb ar gyfer y dyfodol i ymrwymo gweddill y cyllid ar gyfer y rhaglen. Mae rhestr ddangosol o'r cyfnodau sy'n weddill ar adran Rhaglen Datblygu Gwledig gwefan Llywodraeth Cymru.
50. Agorwyd Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop 2014-2020 yn llawn ym mis Ionawr 2017 ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau manwl. Rydym wedi gwneud cynnydd

da drwy baratoi nifer o brosiectau cadarn ac, mewn nifer o achosion, wedi cyflwyno ceisiadau. Rydym yn gweithio'n agos gyda diwydiant a rhanddeiliaid i ysgogi a chefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau. Mae chwe chais, sy'n gofyn am ychydig dros £600,000 o grant Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd.

Iach ac egniol

51. Rwy'n awyddus i weld mwy yn cael ei wneud ar draws Cymru, o gynhyrchu sylfaenol i weithgynhyrchu a gwasanaeth bwyd, er mwyn datblygu a chyflenwi'r farchnad ar gyfer cynhyrchion bwyd a diod iach. Byddai hyn yn creu manteision i iechyd a'r economi fel ei gilydd.
52. Ddwy flynedd ers cyhoeddi Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod, mae'r twf wedi rhagori ar y disgwyliadau, sef twf o 17% i £6.1 biliwn yn 2015, sydd eisoes yn fwy na hanner ffordd tuag at darged twf 2020 o 30%.
53. Cynhyrchodd y sector dros £337 miliwn drwy allforion yn 2016 gyda thros 72% yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd, cynnydd sylweddol o dros 27% o gymharu â'r cyfanswm o £264 miliwn a allforiwyd yn 2015.
54. Yn amlwg, er mwyn mynd i'r afael â'r etifeddiaeth o ganlyniadau iechyd gwael mae'n ofynnol i unigolion gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu ffordd o fyw, ond mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod cymunedau yn byw mewn amgylchedd nad yw'n creu afiechyd ac sy'n cynnwys y seilwaith sy'n eu galluogi i gymryd camau i wella eu lles.
55. Rydym yn gwbl ymrwymedig i wella ansawdd yr aer ar draws Cymru. Rydym yn mynd i'r afael â llygredd aer drwy Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol, rheoleiddio'r diwydiant, y system gynllunio, hyrwyddo teithio byw ac annog mesurau lleol eraill sy'n gysylltiedig â manau gwyrdd a choed. Wrth gynyddu cydnerthedd cymunedau, mae'n bwysig lleihau'r baich iechyd yn sgil llygredd aer. Gall mesurau i gynyddu'r nifer o gerbydau allyriadau isel a thrydaneiddio rheilffyrdd oll gyfrannu at hyn. Cyhoeddais ganllawiau polisi newydd i Awdurdodau Lleol ar 15 Mehefin, a oedd yn cyd-daro â Diwrnod Aer Glân, i sicrhau bod y gyfundrefn rheoli ansawdd yr aer yn lleol yn cyd-fynd â'r ffyrdd o weithio yn neddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi gweithwyr iechyd proffesiynol gyda negeseuon allweddol am gefnogi Awdurdodau Lleol a chyfathrebu peryglon ansawdd aer gwael i'r cyhoedd. Byddwn yn cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o ansawdd aer.
56. Rydym yn dadansoddi'r ymatebion sy'n ymwneud yn benodol â Chymru i'r cydymgyngoriad ar draws y DU ar gynllun ansawdd aer drafft newydd y DU. Bydd yr ymgyngoriad, a ddaeth i ben yn ddiweddar, yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ymgyngori ar fanylion y fframwaith Parth Aer Glân i Gymru. Mae angen cyhoeddi cynllun y DU yn ei ffurf derfynol erbyn diwedd mis Gorffennaf.
57. Rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau bod gan Gymru anifeiliaid cynhyrchiol iach, gydag ansawdd bywyd da; bod pobl yn ymddiried yn y ffordd y caiff bwyd ei

gynhyrchu a bod ganddynt hyder yn y broses; a bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu.

58. Bydd cynllun gweithredu blynyddol 2017/18 Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Gorffennaf. I gefnogi'r gwaith hwn, mae Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn hyrwyddo cyfranogiad a chydweithio ymysg rhanddeiliaid, sy'n cwmpasu'r sbectrwm cyfan o faterion iechyd a lles anifeiliaid.
59. Mae Cynllun Wrth Gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer Clefydau Egsotig mewn Anifeiliaid sy'n nodi'r prosesau gweithdrefnol a'r strwythurau i'w defnyddio i ymdrin ag achosion o glefyd mewn anifeiliaid yn cael ei adolygu i ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r achosion diweddar o fflw adar. Mae'r profiad yn sgil yr achosion hyn yn dangos yn glir pa mor bwysig yw cael cynlluniau cadarn wrth gefn.
60. Un o egwyddorion craidd Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yw "Mae atal yn well na gwella". Er mwyn ymgorffori'r egwyddor hon yn llawn mewn ffordd o weithio ar draws y diwydiant, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru i ystyried trefniadau cynllunio gweithredol ar gyfer iechyd anifeiliaid. Mae hyn yn cysylltu â'n gwaith parhaus o godi ymwybyddiaeth o arferion bioddiogelwch da. Mae grŵp gorchwyl a gorffen bach, sy'n cynnwys ffermwyr a milfeddygon wedi cael ei sefydlu i ddatblygu hyn.
61. Rydym wedi gweithio'n agos â rhanddeiliaid i gyflawni'r prosiect i symleiddio'r rheolaethau Cyfnod Gwahardd Symud Chwe Niwrnod presennol. Bydd y trefniadau newydd ar gyfer Unedau Cwarantyn yn lleihau'r cymhlethdod i ffermwyr. Mae'r Gorchymyn Rheoli Clefydau diwygiedig wedi ei raglennu i ddod i rym ar 11 Medi er mwyn osgoi unrhyw effaith andwyol ar y tymor sioeau eleni.
